OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2161 (Cy.184)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio Rhif 2) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *3 Awst 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *6 Awst 2009* |

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 6, 14(3) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a pharagraff 1(1) a (4) o Atodlen 2 iddi(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru'n unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio Rhif 2) 2009.

(2) Daw'r rheoliad hwn a rheoliad 2 i rym ar 7 Medi 2009.

(3) Daw rheoliad 3 i rym ar 12 Hydref 2009.

### Dirymu

**2.** Dirymir rheoliad 2 o Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2009(**3**).

(**1**) 1998 p.30. Mae adran 6 ac Atodlenni 1 a 2 yn gymwys mewn perthynas â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911). Diwygiwyd paragraff 1(4) o Atodlen 2 gan baragraff 86(2) o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32) ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan baragraffau 2 a 7 o Atodlen 9 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p.47). I ganfod ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 43(1).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 211 o Ddeddf Addysg 2002, ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2009/1354 (Cy.130).

**Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001**

**3.** Diwygir Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001(**4**) drwy ychwanegu'r canlynol ar ôl rheoliad 9(1)(b)—

"; neu

(c) bod y Bwrdd Gwahardd Annibynnol, a sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**5**), wedi cynnwys, neu'n ystyried p'un ai i gynnwys, athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig yn y naill neu'r llall o'r rhestrau o'r gwaharddedig a gedwir o dan adran 2 o'r Ddeddf honno.".

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

3 Awst 2009

(**4**) O.S. 2001/1424 (Cy.99) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/503 (Cy.71), 2009/1354 (Cy.130).
(**5**) 2006 p.47.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001 ("Rheoliadau 2001") ac yn dirymu diwygiad a wnaed i Reoliadau 2001 gan Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2009.

Mae Rheoliadau 2001 yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau disgyblu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Effaith y diwygiad a'r dirymiad yw bod swyddogaethau Pwyllgor Ymchwilio sy'n perthyn i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cael eu gwahardd os yw Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn dymuno ystyried achos gyda'r bwriad o arfer pwerau o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002, neu os yw'r Bwrdd Gwahardd Annibynnol wedi cynnwys neu'n dymuno ystyried cynnwys yr athro neu'r athrawes yn y rhestrau o'r gwaharddedig a gedwir o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006.

Er bod y cynllun gwahardd o dan y Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 yn disodli'r system o roi cyfarwyddiadau o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002, cedwir y cyfeiriad at y system honno gan fod angen gwahardd swyddogaethau Pwyllgor Ymchwilio mewn perthynas ag achosion sy'n cael eu hystyried o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002 ond nad ydynt wedi dod i ben ar 12 Hydref 2009.